

09 Hydref 2020

Annwyl Breswilydd / Perchennog Busnes,

Par: Gwelliannau i Barth Cyhoeddus Trefynwy – Cam 1

Fel yr hysbyswyd yn flaenorol, rydym yn symud i gam terfynol y gwaith uchod ar ran Cyngor Sir Fynwy. Mae'r cam hwn yn cynnwys gosod wyneb newydd ar rannau o'r B4293 yn cynnwys Sgwâr Agincourt a rhan fach o Stryd Agincourt.

Oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd, rydym yn gorfod ail-drefnu. Mae hyn yn golygu y caiff y gwaith hwn yn awr ei wneud rhwng dydd Llun 19 Hydref a dydd Mercher 21 Hydref 2020, ac nid fel yr hysbyswyd yn flaenorol. Caiff gwaith paratoi'r ffordd ar gyfer gosod wyneb newydd yn awr ei wneud gyda'r nos ar 19 Hydref a chaiff yr wyneb newydd ei osod gyda'r nos ar 20 Hydref. Caiff y gwaith gyda'r nos ei wneud drwy gau ffordd dros dro rhwng 1800 – 0200 o'r gloch a bydd arwyddion clir ar y llwybrau gwyro. Bydd gweithredwr rheoli traffig yn bresennol wrth oleuadau Dixon yn ystod y gwaith min nos i lywio unrhyw draffig. Yn ystod y dydd, bydd traffig yn dal i fedru defnyddio'r system un-ffordd bresennol. Wedyn caiff gwaith llinell wen ei wneud yn ystod y dydd ar 21 Hydref, lle defnyddir rheolaeth traffig i ostwng faint o darfu a achosir. Gofynnir i chi nodi y gallwch brofi peth tarfu sŵn ac mae'r holl waith yn dibynnu ar y tywydd.

Gofynnwn yn garedig i chi beidio parcio yn yr ardaloedd yma tra bod y gwaith yn mynd rhagddo. Gallwn eich sicrhau y cedwir mynediad i adeiladau a busnesau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ein gwaith, cysylltwch â Georgie Davies, ein Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd os gwelwch yn dda. Gellir cysylltu â Georgie rhwng 08.30 ac 17.30 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy ffonio ***03300 412 183**. Os ydych yn galw tu allan i'r oriau hyn, neu os na all Georgie ateb, gadewch neges os gwelwch yn dda neu gallwch anfon e-bost at Georgie yn georgie.davies@alungriffiths.co.uk

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleuster a achosir a hoffem ddiolch i'r gymuned leol am eu hamynedd tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Yn gywir iawn,

Alun Griffiths (Contractors) Cyf

**Codir y gyfradd galwadau cenedlaethol ar alwadau i'r rhif hwn a chaiff ei gynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau daear a ffonau symudol.*